

Pwyllgor Diwylliant 09-02 (p.1a)

Dyddiad: 1 Mai 2002

Amser 9.00 - 12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

CYFIEITHU A NORMALEIDDIO DEFNYDDIO'R GYMRAEG

Nodyn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

1. Ar gychwyn yr adolygiad o'r Gymraeg, cyflwynodd y Bwrdd mewn papur nifer o bwyntiau gweithredu i'r Cynulliad eu cynnwys mewn strategaeth i gyrraedd y nod o greu Cymru ddwyieithog. Un o'r prif bwyntiau oedd y dylai'r Cynulliad wneud dwyieithrwydd yn llorweddol yn ei waith. Wrth gyflwyno'r papur, cyfeiriodd y Cadeirydd yn benodol at y ffordd yr oedd y Gymraeg wedi bod yn cael ei thrafod gan wasanaeth sifil y Cynulliad, fel *'dim llawer mwy na rhywbeth i gyfieithu iddi lle mae dogfennau yn y cwestiwn, a rhywbeth i gyfieithu ohoni pan fydd pobl yn dewis ei siarad yn gyhoeddus'*. Wrth alw am drin dwyieithrwydd yn llorweddol ar draws pob maes polisi yn y Cynulliad, galwyd hefyd am sefydlu uned fewnol i sicrhau fod hyn yn cael ei weithredu, a rhoddwyd iddi'r nod yma: *'mwy o weinyddu dwyieithog naturiol – a llai o gyfieithu'*.
2. Yn yr araith gywair *Rhagolygon yr Iaith*, a draddodwyd yng Nghaerdydd ddiwedd Chwefror, un o'r prif themâu oedd cynyddu defnyddio'r Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, ymhelaethodd y Cadeirydd ar gyfieithu, ac estynnodd ei sylwadau i gyrff eraill, fel a ganlyn:

"Mae mwy i'w wneud hefyd yn y maes cyfieithu. Rwy am weld cyfieithu yn datblygu yn wir wasanaeth ac nid yn enw arall ar dalu gwrogaeth i'r iaith. Gwasanaeth cynhaliol yw e. Mae annog pobl sy'n medru'r Gymraeg i ddefnyddio'r iaith wrth eu gwaith yn bwysicach o'r hanner. Ac os bydd hynny'n digwydd ar draul cyfieithu dogfennau di-bendraw, yna bydd pawb yn llawenhau, gobeithio.

*Nid bychanu'r proffesiwn cyfieithu ydw i yn awr, ond chwilio am fwy o ddychymyg a chynllunio cyfannol gan sefydliadau sydd ar hyn o bryd yn credu mai cyfieithu yw'r **unig** ateb wrth gynnig gwasanaeth mewn dwy iaith.*

Nid mater o gyfieithu slafaidd yw ystyr 'Creu Cymru Ddwyieithog'. A dweud y gwir, mae angen gweld llai o gyfieithu dogfennau sy'n gwneud dim ond casglu llwch. Mae Creu

Cymru Ddwyeithog yn broses llawer mwy cymhleth na hynny! A rhaid ailystyried y blaenoriaethau o ran cyfieithu – yn ieithyddol ac yn nhermau gwariant. Y flaenoriaeth i ni ydi mwy o weinyddu naturiol ddwyeithog, a mwy o bobl yn defnyddio'r cynnyrch."

3. Dyma dri argymhelliad sut y gellid cyrraedd y nod o weld mwy o weinyddu naturiol ddwyeithog, drwy ystyried swyddogaeth cyfieithu o fewn cyd-destun ehangach cynllunio ieithyddol.
4. **Dylai pob sefydliad asesu amrediad sgiliau ieithyddol ei staff yn erbyn argaeledd ei wasanaeth cyfieithu.**

Mae hyn yn rhywbeth sy'n digwydd yn barod pan fydd y Bwrdd yn gofyn i gyrff wneud adolygiad o'u cynlluniau iaith Gymraeg, ond gall ddigwydd hefyd heb y cymhelliad hwnnw. Mae'n ffaith fod canran o weithlu pob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i bobl Cymru yn ddwyeithog. (Mae'r canrannau hyn yn amrywio'n fawr, wrth gwrs.) Barn y Bwrdd yw mai un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o normaleiddio defnyddio'r Gymraeg yw galluogi'r sawl sy'n medru'r Gymraeg i'w defnyddio wrth eu gwaith, a'u cymell a'u cynorthwyo i wneud hynny drwy hyfforddiant. Un cwestiwn syml y gellid ei ofyn ymhob sefydliad ar y cychwyn yw, a oes raid cyfieithu llythyrau syml o'r Gymraeg cyn delio â nhw, neu a oes staff cymwys ar gael i'w hateb yn Gymraeg yn naturiol, heb fennu ar y gwasanaeth cyfieithu.

5. **Dylid cynnwys y gwasanaeth cyfieithu yn ganolog yn y broses o drin dwyieithrwydd yn llorweddol.**

Mae cyfieithwyr yn gweithio'n gyson gyda dwy iaith; mae'n naturiol, felly, i fanteisio ar eu profiad a gwneud y gorau ohono. Rhaid cofio hefyd fod gan gyfieithwyr yn aml sgiliau eraill i'w cynnig: er enghraifft, gallan nhw helpu i olygu a gwella testunau sy wedi eu creu yn y Gymraeg; gallan nhw hefyd gynorthwyo yn y broses o ennyn hyder swyddogion dwyieithog i ddefnyddio eu Cymraeg.

6. **Dylid blaenoriaethu gwaith cyfieithu ar sail canllawiau pendant i benderfynu pa waith sy'n angenrheidiol, pa waith sy'n ddymunol, a pha waith nad oes angen ei gyfieithu.**

Nid yw blaenoriaethu cyfieithu yn gysyniad newydd i unrhyw sefydliad. Ond dylid ei wneud ar sail canllawiau pendant, a chydag ystyriaeth gyfannol wedi ei roi i gloriannu gwerth mwy o weinyddu naturiol ddwyeithog yn erbyn llai o gyfieithu diangen. **Nid yw'n dderbyniol oni bai fod y naill – sef, mwy o weinyddu dwyieithog - yn digwydd ar draul y llall – sef, llai o gyfieithu.** Gall cyfieithwyr gynorthwyo yn y gwaith hwn hefyd, a dylid eu hannog i wneud hynny. Y prif ganllaw yw cynyddu defnyddio'r Gymraeg, a darparu gwasanaeth lle mae ei angen. Os nad yw cynnyrch yn cael ei ddefnyddio, yna ni ddylid, fel rheol, ei gyfieithu. Y prif ystyriaethau creiddiol eraill heblaw am ddefnydd yw:

- i. Nifer y dogfennau i'w cynhyrchu;
 - ii. Hyd y ddogfen;
 - iii. Natur a maint y gynulleidfa darged;
 - iv. Pwrpas y ddogfen a'i heffaith debygol ar y defnyddiwr;
 - v. Statws y ddogfen - gall ystyriaethau statws olygu weithiau fod yn rhaid cyfieithu, er enghraifft, pan mae bodolaeth y ddogfen o bwys mawr – meddylier am Siartr Frenhinol neu Gynllun Datblygu Unedol, na fydd disgwyl i bobl wneud fawr o **ddefnydd** ohonyn nhw mewn unrhyw iaith;
 - vi. Oes y ddogfen (gan gofio nad yw cyfieithu datganiad heddiw sy'n cyhoeddi digwyddiad ddoe o ddim gwerth i neb!).
7. Un ffordd greadigol o brofi'r argymhellion hyn fyddai gofyn i'r Cynulliad eu mabwysiadu wrth adolygu ei wasanaethau cyfieithu ei hun ar sail ei brofiad o dair blynedd, yn y cyddestun ehangach o hybu mwy o weinyddu naturiol ddwyieithog gan ei staff.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Ebrill 2002